Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

# Rhaglen Gwirfoddolwyr Dyffryn Dyfrdwy

# Ebrill – Mehefin 2025

## Ar y Gweill

### Tynnu Cegid y Gorllewin yng Nghoed Pen y Pigyn

Yn un o'n sesiynau yn ddiweddar, bu gwirfoddolwyr yn tynnu cegid (*Tsuga heterophylla*) draw yng Nghoed Pen y Pigyn. Coedwig dderw lled-hynafol yn yr ucheldir yw Coed Pen y Pigyn, sydd wedi aildyfu ers torri'r holl gonwydd a dyfai yno ym 1992. Mae cegid y gorllewin yn hunan-hadu yng Nghoed Pen y Pigyn, a'r gwaith o'i dynnu'n ddi-ben-draw. Diolch i gefnogaeth ddygn a gwaith caled y gwirfoddolwyr, fodd bynnag, mae ei dynnu wedi gwneud gwahaniaeth mawr.



## Marcio Llwybr Clawdd Offa



Yn ddiweddar, bu gwirfoddolwyr a cheidwaid wrthi'n brysur yn gosod marciau newydd ar hyd Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Mae Llwybr Clawdd Offa'n ymestyn am 177 o filltiroedd (285 cilometr) drwy ororau Cymru a Lloegr, yn rhannol ar hyd y ffin a gododd y Brenin Offa o Fersia yn yr wythfed ganrif. Hyd heddiw, mae'r llwybr yn boblogaidd iawn â cherddwyr sy'n heidio i weld y golygfeydd a thirluniau ysblennydd ar y rhosydd gwyllt, yn nyffrynnoedd eang, ffrwythlon yr afonydd a thrwy goedwigoedd hynafol. Ceir nodweddion hanesyddol ar hyd y llwybr hefyd, fel adfeilion hen gartrefi cyn-drigolion yr ardal, mynachlogydd a bryngaerau. Ymunwch â ni yn y dyfodol pan fyddwn yn gosod arwyddion ar hyd y llwybr anhygoel hwn!

## Creu Pwll yng Ngardd Gymunedol Corwen

Bu gwirfoddolwyr, ceidwaid a Natur Er Budd Iechyd yn brysur iawn yng Ngardd Gymunedol Corwen. Newyddion da, mae gennym bwll! Fe gawsom hwyl dda arni dros ddau o sesiynau wrth gloddio a ffurfio'r pwll newydd. Wedi rhoi'r leinin i lawr yn y sesiwn olaf, y cyfan sydd i'w wneud yw gadael i'r pwll lenwi â dŵr glaw. Mae'r pwll yn edrych yn dda yn yr ardd ac rydym yn edrych ymlaen yn arw at ei weld yn datblygu yn y flwyddyn nesaf! Buom wrthi'n brysur hefyd yn plannu hadau, twtio'r gwelyau blodau a chymryd toriadau. Diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr a fedrodd ddod draw i'r ardd yn yr wythnosau diwethaf! Mae croeso ichi alw heibio os oes arnoch awydd ychydig o awyr iach, paned a sgwrs.





Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

## Ebrill

**Prynhawniau Mercher 1pm - 3pm**

**Sesiwn Garddio Ysgafn**

Ymunwch â'r Ceidwaid am rywfaint o arddio hamddenol, sgwrs a phaned bob prynhawn dydd Mercher yng Ngardd Gymunedol Corwen.

Cyfarfod yng Ngardd Gymunedol Corwen

**Cod Post: LL21 0DN**

**What3Words:///support.files.scratches**

**Dydd Iau 3 10am – 12pm**

**Plannu Plygiau Blodau Gwyllt**

Dewch i ymuno â'r Tîm Ceidwaid a Natur Er Budd Iechyd yng Ngwarchodfa Natur Wenffrwd i blannu plygiau blodau gwyllt ar hyd darn newydd o'r llwybr sy'n mynd at Gamlas Llangollen. Darperir tocyn i barcio am ddim am y diwrnod.

Cyfarfod yng Ngwarchodfa Natur Wenffrwd, Llangollen

**Cod Post: LL20 7UH**

**What3Words:///overlook.decorate.skirting**

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

Dydd Mawrth 8 10am – 1pm

Gwarchod SoDdGA Dinas Brân

Rhowch help llaw i'r Ceidwaid â mân waith cynnal cynefinoedd ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Dinas Brân. Y gwaith pennaf yw clirio malurion eithin yn sgil y gwaith a wnaed ar y cynefinoedd yn ddiweddar.

Cyfarfod ar hyd y Llwybr Panorama

Cod Post: LL20 8EG

What3Words:///months.burn.period

Dydd Mercher 9 1pm – 3pm

Gwneud Ffensys Pleth a Garddio Cyffredinol

Dewch draw am baned a sgwrs a rhoi help llaw yng Ngardd Gymunedol Corwen wrth lunio a gosod ffens bleth o amgylch y pwll newydd. Bydd amryw bethau eraill i'w gwneud yn yr ardd hefyd.

Cyfarfod yng Ngardd Gymunedol Corwen

Cod Post: LL21 0DN

What3Words:///support.files.scratches

**Dydd Mawrth 15 10am – 2pm**

**Twtio Rhaeadr y Bedol**

Ymunwch â'r Ceidwaid yn Safle Treftadaeth y Byd Rhaeadr y Bedol i gyflawni mân orchwylion i gael y safle'n barod ar gyfer gwyliau'r Pasg.

Cyfarfod ym Maes Llandysilio

**Cod Post: LL20 8BT**

**What3Words:///vintages.crafts.contour**

**Dydd Iau 24 10am – 2pm**

**Rheoli Cynefin**

Torchwch eich llewys wrth helpu'r Ceidwaid i glirio malurion eithin ym Mryngaer Oes yr Haearn Caer Drewyn. Bydd cyfle hefyd i wneud rhywfaint o arolygon llystyfiant.

Cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Huw Jones, Corwen

**Cod Post: LL21 9RW**

**What3Words:///resources.tailwind.showed**

## Mai

**Dydd Iau 1 10am – 2pm**

**Mynediad at Fannau Gwyrdd - Adeiladu Grisiau**

Rhowch gymorth i'r Ceidwaid drwsio grisiau ac adeiladu rhai newydd yn Hen Rheilffordd Corwen.

Cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Huw Jones, Corwen

**Cod Post: LL21 9RW**

**What3Words:///resources.tailwind.showed**

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

Dydd Iau 8 10am – 3pm

Twtio Coed Pen y Pigyn

Rhowch help llaw gyda gwaith twtio cyffredinol yng Nghoed Pen y Pigyn. Bydd cyfle hefyd i weld canlyniadau buddiol yr holl waith y bu'r gwirfoddolwyr yn ei wneud yn cynnal cynefinoedd ar y safle yn ystod y gaeaf.

Cyfarfod ym maes parcio Lôn Las, Corwen

Cod Post: LL21 0DN

What3Words:///support.files.scratches

Dydd Mawrth 13 10am – 12pm

Gosod Mainc

Ymunwch â'r Ceidwaid yn Ninas Brân i helpu adfer un o'r meinciau ar hyd y prif lwybr at yr Heneb Gofrestredig. Mae lleoedd i barcio'n brin ar y safle ond bydd modd cael lifft o Langollen.

Cyfarfod ym Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llangollen.

Cod Post: LL20 8NB

What3Words:///active.supposed.suitably

Dydd Iau 22 10am – 3pm

Hau Hadau ar Fynydd Llandysilio

Yn sgil y tân gwyllt dinistriol ar Fynydd Llandysilio yn 2018, ymunwch â ni i hau amrywiaeth o hadau grug ar ddarnau o'r rhostir sydd heb ail-ffynnu eto.

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

Man Cyfarfod: I'w gadarnhau

Dydd Iau 29 10am – 3pm

Codi Waliau Sych yng Nghaer Drewyn

Dewch i roi cynnig ar y grefft draddodiadol o godi waliau sych. Mae waliau sych yn flaenllaw yn nhirlun cefn gwlad fel ffiniau rhwng tir gwahanol berchnogion. Nid oes angen unrhyw brofiad o godi waliau sych.

Cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Huw Jones, Corwen

Cod Post: LL21 9RW

What3Words:///resources.tailwind.showed

## Mehefin

Dydd Llun 2 2pm – 4pm

Clirio Rhedyn ac Arolwg Llystyfiant

Ymunwch â'r Ceidwaid wrth glirio rhedyn yn Nôl Llangar. Wedi hynny byddwn yn cynnal arolwg byr o'r llystyfiant yno. Dewch draw i ddysgu rhywbeth newydd neu loywi hen sgiliau.

Cwrdd yng nghilfan Llangar (Stamp), Cynwyd

Cod Post: LL21 0HW

What3Words:///sleepless.pausing.newsprint

Dydd Mawrth 17 10am – 2pm

Gosod Meinciau

Dewch i roi cynnig ar osod meinciau yng Nghorwen gyda'r Ceidwaid a Natur Er Budd Iechyd. Bydd y meinciau'n rhoi cyfle i bobl gael seibiant wrth fynd am dro o amgylch y dref i fwynhau'r golygfeydd hardd.

Cyfarfod ym maes parcio Lôn Las, Corwen

Cod Post: LL21 0DN

What3Words:///support.files.scratches

Dydd Iau 26 10am – 2pm

Codi Waliau Sych yng Nghaer Drewyn

Dewch i roi cynnig ar y grefft draddodiadol o godi waliau sych. Nid oes angen unrhyw brofiad o godi waliau sych.

Cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Huw Jones, Corwen

Cod Post: LL21 9RW

What3Words:///resources.tailwind.showed

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

Nid yw'r gweithgareddau hyn yn addas ar gyfer plant dan 16 oed. Rhowch wybod inni o flaen llaw os ydych chi'n bwriadu dod. Does dim angen profiad arnoch. I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau gwirfoddoli, cysylltwch â ni.

Hannah Taylor – Ceidwad Cefn Gwlad

e-bost: hannah.taylor@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 07467 681229

Morgan Jones – Ceidwad Cefn Gwlad

e-bost: morgan.vaughanjones@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 07342 062889